# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd A Thrafnidaeth

## EDT(2) 03-06 (p5)

### Dyddiad: 8 Chwefror 2006
### Amser: 9.00 - 12.30
### Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
### Teitl: Diweddariad ar y Banc Gwybodaeth ar gyfer Busnesau

#### Diben

1. Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y gefnogaeth fasnachol a ddarparwyd gan y Banc Gwybodaeth ar gyfer Busnesau. Mae'r papur yn cael ei gyflwyno ar gais y Pwyllgor.

#### Y Cefndir

2. Ar 27 Medi 2005, lansiais y Banc Gwybodaeth ar gyfer Busnesau (KB4B) ar sail cynllun braenaru, gan weithio gyda rhyw 50 o gwmnïau. Nod KB4B yw rhoi cefnogaeth ystyrlon wedi'i theilwra i gwmnïau sydd â photensial ar gyfer twf uchel. Bydd wrth wraidd Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (ADETh) newydd Llywodraeth y Cynulliad.

3. Bydd KB4B yn chwarae rhan bwysig wrth gyflawni'r amcanion arloesedd a chystadleuedd a nodwyd yn Cymru: Economi yn Ffynnu. Bydd ei dimau atebion busnes yn canolbwyntio ar grwp o gwmnïau a all ddangos cyfleoedd twf cyflym a budd economaidd. Mae atebion wedi'u teilwra yn elfen hanfodol wrth hybu potensial twf ac arloesedd busnesau yng Nghymru.

4. Adeg y lansio, cadarnheais y byddai meini prawf cymhwysedd KB4B yn cael eu diwygio er mwyn helpu i wella'r broses o nodi'r cleientiaid a fyddai'n fwyaf tebygol o elwa'n economaidd ar gefnogaeth y sector cyhoeddus, gyda'r bwriad o ehangu grwp cleientiaid KB4B. Dosbarthwyd y meini prawf cymhwysedd (yn Atodiad A) i holl Aelodau'r Cynulliad ar 18 Ionawr. Bydd y meini prawf yn rhoi'r hyblygrwydd i KB4B ymateb yn effeithiol i amodau a chyfleoedd y farchnad leol.

5. Ers lansio'r fenter hon, cyfeiriwyd 30 o gwmnïau at dîm KB4B fel darpar gleientiaid. Mae'r cwmnïau ychwanegol hyn yn cael eu hasesu yn ôl y meini prawf newydd, a gobeithio y gellir cynyddu'r grwp cleientiaid i dros 150 o gwmnïau dros y ddwy flynedd nesaf, yn amodol ar gynnal gwerthusiad yn ddiweddarach eleni.

6. Wrth ddatblygu model KB4B, mae'r swyddogion wedi bod yn gweithio i wella, ond hefyd i symleiddio'r gwasanaeth, gan gynnig gwasanaeth hyblyg, addas at ei ddiben sy'n cael ei werthfawrogi

gan fusnesau sydd â photensial ar gyfer twf uchel mewn economi wybodaeth:

- Ymgynghori – er mwyn i KB4B weithredu yn unol â rheolau'r Wladwriaeth, rydym wedi rhoi gwybod i'r Comisiwn Ewropeaidd y byddwn yn defnyddio eithriadau bloc i gefnogi BBaCh sy'n gleientiaid. Bydd hyn yn galluogi i KB4B weithredu mewn modd hyblyg iawn wrth roi cefnogaeth ymgynghori arbenigol i BBaChau. Mae cwmnïau mawr wedi'u heithrio, ond, gan amlaf, nid oes achos cryf dros ddarparu ymgynghoriaeth â chymorth grant i gwmnïau mawr.
- Cyllid – mae gwaith ar y gweill a fydd yn arwain at gronni grantiau o dan y rhaglen newydd, Cyllid i Gymru, o fis Ebrill 2006. Mae hwn yn gam mawr ymlaen wrth symleiddio'r drefn grantiau ac yn garreg filltir ddefnyddiol tuag at yr amcan polisi o "Un Grant". Bydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd, yn enwedig ym meysydd ymchwil a datblygu a hyfforddiant nad yw'r un cyfyngiadau Ardal a Gynorthwyir arnynt â'r Cymorth Rhanbarthol Dewisol (RSA) neu'r Grant Datblygu Eiddo. Bydd cyfle yn codi yn ddiweddarach eleni i atgoffa RSA i adlewyrchu'r tirlun newydd a'i wneud yn fwy priodol i gwmnïau sy'n seiliedig ar wybodaeth.
- Hyfforddiant – mae tîm KB4B wedi bod yn cydweithio'n agos ag ELWa i gynnal cynllun peilot o'r Rhaglen Datblygu Gweithlu newydd gyda nifer fach o gleientiaid KB4B. Er mwyn darparu gwasanaeth di-dor i gleientiaid, mae atebion hyfforddiant yn cael eu datblygu mewn ymgynghoriaeth â KB4B. Bydd hyn yn un o fanteision cynnar yr uno.

7. O ran recriwtio tîm KB4B, gwnaed cynnydd da ac mae'r staff allweddol wedi'u penodi i'r swyddi atebion busnes allweddol, yn enwedig swyddi'r Rheolwyr Masnachol. Mae Glenn Massey, a benodwyd yn Gyfarwyddwr Lansio KB4B, yn dychwelyd i PricewaterhouseCoopers ac mae'n trosglwyddo'r awenau i uwch swyddog yn y sector preifat. Mae'r holl gwmnïau sy'n gleientiaid i KB4B yn ystyried bod rheoli cyfrifon yn dda yn rhan neu'n rhagflaenydd hanfodol, felly mae recriwtio tîm o ansawdd uchel yn hanfodol os yw'n mynd i lwyddo. Dylai tîm atebion busnes KB4B fod wedi'i staffio'n llawn erbyn diwedd mis Mawrth 2006.

8. Mae KB4B bellach yn weithredol, a chafwyd ymateb cadarnhaol oddi wrth y gymuned fusnes. Mae gan KB4B y cyfle yn awr i adeiladu ar yr ymateb cadarnhaol hwn ac i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i ffyniant Cymru drwy ddarparu atebion busnes wedi'u teilwra i fusnesau twf uchel.

## Camau i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth eu cymryd

9. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r diweddariad hwn.

## Andrew Davies

## Y Gweinidog Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

Swyddog Cyswllt: Steve Davies, KB4B, Est 5031

## Atodiad A: Banc Gwybodaeth ar gyfer Busnesau – Meini Prawf Cymhwysedd

Gall y Banc Gwybodaeth ar gyfer Busnesau (KB4B) weithio gyda'r cwmnïau canlynol:

- BBaChau:

  - sydd wedi bod yn masnachu'n fasnachol am ddwy flynedd o leiaf; ac

  - sy'n masnachu'n broffidiol, gyda throsiant o £3 miliwn o leiaf; ac

  - sydd â thîm rheoli strwythuredig sy'n uchelgeisiol ac sydd wedi ymrwymo i dwf pellach; ac

  - sy'n gallu o leiaf dyblu eu trosiant o fewn amserlen o bedair blynedd.

NEU

- Cwmnïau mawr sydd â photensial twf sylweddol, ac sy'n gallu rheoli, ymchwilio a datblygu/arloesi a dylunio'n lleol.

NEU

- Cwmnïau o unrhyw faint ac aeddfedrwydd sy'n cynnig cyfle technolegol tra phwysig i Gymru.

Nid yw'r lleoliad (yng Nghymru), nifer y cyflogeion, na'r sector yn ffactorau ysgogol wrth ystyried a yw cwmni'n gymwys, er bod ein hamcan o "ledaenu ffyniant" yn galw am gydbwysedd rhanbarthol teg ar draws y portffolio.